CARDIFF SCHOOL of ART & DESIGN

# Briff Aseiniad Prosiect yr Haf

| Cod y Modiwl | Teitl y Modiwl |
|---|---|
| Prosiect Cyn Cyrraedd | Aseiniad Prosiect yr Haf: CELFYDDYD GAIN |

| Blwyddyn Academaidd | Semester |
|---|---|
| 2023/24 | Cyn-semester/tymor un |

**E-bost Arweinydd y Prosiect**

Sean Edwards: sedwards@cardiffmet.ac.uk

## Manylion Asesu

| Teitl y prosiect | Tal. | Pwysoliad |
|---|---|---|
| Prosiect Animeiddio yr Haf | WRIT1 | Dd/B |

**Cyd-destun:**
Ym mis Medi byddwch yn ymuno â'r cwrs BA (Anrh) mewn Celfyddyd Gain yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd. Mae’r Flwyddyn Gyntaf mewn Celfyddyd Gain yn mynd i fod yn eithriadol o brysur ac yn mynnu eich amser o'r cychwyn cyntaf. I baratoi ar gyfer hyn rydym wedi dyfeisio rhai tasgau gofynnol y bydd angen eu cwblhau gennych chi dros yr haf.  Bydd y gwaith rydych chi’n ei wneud yn bwysig iawn wrth gyflwyno’ch hun i’r staff a’r myfyrwyr eraill ar y cwrs Celfyddyd Gain dros wythnosau cyntaf y tymor.

**Cwblhewch y tasgau a restrir isod i baratoi ar gyfer dechrau’r cwrs ym mis Medi:**

**Briff:**

**1. Tri Gofod**
Dewis tri lle penodol.
Gofod o'r gorffennol; gofod o'ch presennol a gofod o’r dyfodol. Gall y gofodau fod yn real neu'n rhithwir, o'ch profiad eich hun neu eich dychymyg.
Rydym am i chi archwilio pob gofod yn ei dro.
Mae angen i'ch archwiliad o'r gofod fod yn drylwyr a phellgyrhaeddol, dechreuwch drwy wneud cyfres o luniadau o'r gofod ac yna datblygu’r darluniau cychwynnol hyn trwy ystod o ddeunyddiau o'ch dewis. (e.e., ffotograffau, paent, testunau ysgrifenedig, rwbio, cerflun cardiau).
Yn olaf, defnyddiwch yr ymchwil hon i wneud tri darn olaf o waith, un ar gyfer pob un o'ch tri gofod. Gellir cyflwyno'r gweithiau hyn mewn unrhyw gyfrwng. Gallant fod yn ddau, tri neu bedwar (rhithiol ffilmig) dimensiwn, ar ffurf paentiadau, cerflunwaith, ffilm, ffotograffiaeth, perfformiad, ac ati.  Chi sy'n dewis!
Bydd y tri darn terfynol hyn yn cael eu cyflwyno i'r grŵp blwyddyn a'r staff yn ystod yr Wythnos Sefydlu.

**2. L4 Instagram**
Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn hoffi rhannu eu gwaith drwy Instagram, ac rydym yn annog hyn. Unwaith y bydd eich grŵp blwyddyn yn penderfynu a ydyn nhw am wneud ffrwd unigryw. Yn y cyfamser, gallwch rannu’r gwaith rydych chi’n ei wneud gyda’r holl grŵp blwyddyn trwy dagio’ch postiadau gyda **#L4fineartcsad2023** a thrwy ddilyn yr hashnod, fe welwch waith gweddill y grŵp blwyddyn.
Wrth i chi ddatblygu fel artist, rydym yn argymell eich bod yn creu cyfrif Instagram newydd sydd ond i’w ddefnyddio ar gyfer eich gwaith. Fel hyn gallwch gadw eich bywyd personol ar wahân i'ch proffil celf. Defnyddiwch y cyfrif hwn fel dyddiadur gweledol artistig a llwythwch ddelweddau o waith rydych yn ei wneud/wedi'i gwneud; pethau rydych chi’n eu gweld yn dddiddorol, (gwrthrychau, delweddau, clipiau ffilm, gweithiau celf mewn orielau ac ati), yn y bôn, unrhyw beth sydd o ddiddordeb i chi yn artistig, ewch ati i’w uwchlwythwch.
Bydd y cyfrifon Instagram yn cael eu defnyddio yn ystod yr wythnos Sefydlu fel rhan o'r gweithgareddau sefydlu i gyflwyno'ch gwaith i'r staff celfyddyd gain a myfyrwyr eraill. Mae hefyd yn ffordd wych i chi gysylltu â myfyrwyr eraill yn eich blwyddyn cyn i chi gyrraedd Caerdydd. Dylech ddilyn y cyfrif insatgram Celfyddyd Gain @csadfineart

**3. Cadwch lyfr braslunio / llyfr syniadau:**
Os nad ydych chi yn gwneud eisoes, dylech ddechrau cadw llyfr braslunio. Dylai llyfr braslunio fod yn rhywbeth tebyg i ddyddiadur, yn cynnwys darluniau a delweddau a wnawd mewn unrhyw gyfrwng - gallent fod yn ddarluniau am bethau a welir neu’n ddychmygol, syniadau, nodiadau wedi'u sgrifennu, delweddau unlliw, delweddau lliwgar, delweddau collage, ffotograffau.  Mae'n gofiant personol sy’n cael ei esbonio mewn termau gweledol. Bydd llyfrau braslunio yn dod yn rhan o'ch dogfennau rydych chi’n eu cyflwyno i ddangos sut mae eich ymchwil gweledol yn datblygu yn ystod eich cwrs. Bydd dod o hyd i'ch ffyrdd eich hun o ddefnyddio'r offer pwysig hyn yn hanfodol i'ch amser yma ac fel artist gweithredol.

**4. Edrych:**
Mae llwyth o raglenni dogfen a ffilmiau am gelf ac artistiaid ar y rhyngrwyd. Mae'n debyg eich bod eisoes yn ymchwilio i artistiaid a syniadau fel hyn ond i ddechrau ceisiwch wylio rhai o'r rhain. Dyma beth rydyn ni'n ei alw'n 'ymchwil cyd-destunol' ac mae ymchwilio i artistiaid a chyd-destunau yn rhan o'r

cydrannau a asesir o'ch cwrs. Gwnewch nodyn o unrhyw artistiaid sydd â diddordeb yn eich llyfr braslunio/llyfrau nodiadau dros yr haf.

**Pethau i'w cyflawni:**

**Peidiwch ag anghofio cynnwys y canlynol:**

- Eich enw:
- Teitl eich cwrs:
- Teitl a Dyddiad y Prosiect: Prosiect yr Haf 2023

**Cyflwyniad**

- **Dewch â'r prosiect gyda chi ar gyfer dechrau'r Wythnos Groeso ddydd Llun 18 Medi**

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddol ysgol yn nodi enw'r cwrs yr ydych ar fin ymuno ag ef a'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol: csadadmin@cardiffmet .ac.uk

## Adnoddau Ar-lein

Ryan Gander The Art of Everything: The Culture Show 2014
Rhan Un
https://www.youtube.com/watch?v=wcJgHyVaEkY
Rhan Dau
https://www.youtube.com/watch?v=TS_CvIi1s_g&t=6s

Tate Shots:
Adnodd anhygoel o gyfweliadau artistiaid a llawer mwy!
https://www.youtube.com/user/tate

# Nodiadau:

Gallwch ddefnyddio'r dudalen wag hon i wneud eich nodiadau eich hun:

CARDIFF
SCHOOL *of* ART & DESIGN